



Canllaw

Addasiadau

Canllaw I Gynllun Addasiadau Cymdeithas Tai Bro Myrddin

Mae Cymdeithas Tai Bro Myrddin yn medru ceisio am gyllid wrth Lywodraeth Cymru mewn Ffurf Grant Addasiadau Ffisegol (PAG) i wneud addasiadau yn eich cartref i alluogi chi i fyw yn annibynnol.

Pwy sydd yn gymwys i'r cynllun?

Mae'r cynllun ar gael i bob un o breswylwyr Bro Myrddin ag unrhyw berson sydd yn byw yn yr un tŷ sydd yn cael trafferth i ddefnyddio ei gartref a'i gyfleusterau oherwydd salwch neu anabledd.

Nid oes cyfyngiadau oedran ac nid ydy'r grantiau yn destun profion modd.

Beth yw amcanion y cynllun?

I chi allu:

- Byw yn annibynnol yn eich cartref
- Cynnal tenantiaeth llwyddiannus

Y Weithdrefn

Cam 1 – Cysylltwch gyda'ch Adran Gwasanaethau

Cymdeithasol lleol i drefnu **Therapydd Galwedigaethol** i alw yn eich cartref i asesu eich anghenion. Rhif ffôn: **01267 234567**

Cam 2 – Unwaith y caiff asesiad swyddogaethol o'ch anghenion ei wneud, fe fydd y Therapydd Galwedigaethol yn danfon ei hargymhellion (wedi ei selio ar eich anghenion) i'r Gymdeithas.

Cam 3 – Bydd y gymdeithas yn cynnal gwiriad cymhwysedd ac yn trefnu ymweliad â'ch cartref i fedru cymryd mesuriadau ayyb. Yna, fe fydd y Gymdeithas yn paratoi gwaith papur a gaiff ei ddanfon allan fel tendr at gontractwyr.

Cam 4 – Unwaith y derbynir y tendrau i gyd, fe gysylltith Bro Myrddin â Llywodraeth Cymru am gymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer y gwaith. Wedyn, ar ôl derbyn cymeradwyaeth, fe fydd y contractwr yn gallu cychwyn ar y gwaith. Mae'n bosibl y caiff rhai ffurflenni cais eu proesus'n gynt a gall y gwaith cael ei gwblhau cyn derbyn cymeradwyaeth wrth y Cynulliad. Mae hyn yn dibynnu ar y math o waith a wneir.

Cam 5 – Ar ôl i'r holl waith gael ei gwblhau, fe fydd y Gymdeithas yn cynnal arolwg i archwilio'r gwaith.

Pa addasiadau gellir eu gwneud?

- Mynediad lefel isel i ddrysau ffrynt a chefn
- Mynediad cawod ar yr un lefel â'r llawr
- Rampiau
- Teclynnau Codi
- Liffert grisiau

Mae gennym gyllideb fach i wneud mân addasiadau e.e. rheiliau gafael, tapiâu lifer ayyb.



Sylwer

o dan rhai amgylchiadau fe fydd Bro Myrddin yn gofyn i Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth cyn ymgrymyd ag addasiadau penodol. Fodd bynnag, os caiff ei wrthod neu ei dynnu nôl, mae'n bosibl na fydd Bro Myrddin yn medru darparu'r addasiad gofynnol.

Weithiau, ni fydd hi'n bosib i'r addasiadau cael eu gwneud i'ch cartref presennol.

Os dyna'r sefyllfa, fe fydd Bro Myrddin yn eich cynorthwyo i ddod o hyd i dŷ arall y gellir ei addasu, neu sydd eisoes wedi ei addasu.

Swyddfa cofrestru:

Cymdeithas Tai Bro Myrddin Cyf
Plas Myrddin
Heol Myrddin
Caerfyrddin
SA31 1RU

Ffôn: 01267 232714

Ffacs: 01267 238107

Gwefan: www.bromyrdin.co.uk

Ebst: info@bromyrdin.co.uk

**Mae'r wybodaeth yma ar gael ar gais yn
Braille, print bras neu ar dâp sain.**

